

2014 Rhif (Cy.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Troi i'r Dde) 2014

Gwnaed 11 Ebrill 2014

Yn dod i rym 16 Ebrill 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Castell-nedd – y Fenni (yr A465) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2) i Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”), a phob pŵer galluogi arall, ac wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 16 Ebrill 2014 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Hirwaun, Rhondda Cynon Taf) (Gwahardd Troi i'r Dde) 2014.

Gwaharddiad

2. Ni chaiff neb sy'n mynd ar gerbyttffordd tua'r dwyrain y gefnffordd beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd droi i'r dde i'r fynedfa i Fferm Wynt Mynydd Bwllfa ar draws cerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sydd 220 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun.

3. Ni chaiff neb sy'n ymuno â'r gefnffordd o'r fynedfa i Fferm Wynt Mynydd Bwllfa sydd 220 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd i gyfeiriad y dwyrain drwy droi i'r dde ar draws cerbyttffordd tua'r gorllewin y gefnffordd.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi,
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion
Cymru

Dyddiedig 11 Ebrill 2014

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

(1) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465
(HIRWAUN, RHONDDA CYNON TAF)
(GWAHARDD TROI I'R DDE) 2014**

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn, a ddaw i rym ar 16 Ebrill 2014, o dan adrannau 1(1), 2(1) a (2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn fydd:

i. gwahardd pob cerbyd sy'n mynd ar gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd rhag troi i'r dde i'r fynedfa i Fferm Wynt Mynydd Bwllfa ar draws cerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sydd 220 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun.

ii. gwahardd pob cerbyd sy'n ymuno â'r gefnffordd o'r fynedfa i Fferm Wynt Mynydd Bwllfa sydd 220 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hirwaun rhag mynd i gyfeiriad y dwyrain drwy droi i'r dde ar draws cerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 16 Ebrill 2014, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn a'r plan yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell Hirwaun, High Street, Hirwaun CF44 9SW a Llyfrgell Aberdâr, Green Street, Aberdâr CF44 7AG neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod.

Os yw unrhyw berson yn dymuno cwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn, neu unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo, ar y seiliau:

a. nad yw o fewn pwerau Deddf Rheoleiddio Traffig

Ffyrdd 1984; neu

- b. bod ei fuddiant wedi ei niweidio'n sylweddol o ganlyniad i fethiant i gydymffurfio ag unrhyw un o ofynion y Ddeddf,

caiff y person hwnnw, o fewn 6 wythnos ar ôl 16 Ebrill 2014, wneud cais i'r Uchel Lys yn gofyn am atal neu ddiddymu'r Gorchymyn neu unrhyw ddarpariaeth a geir ynddo.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad yn www.cymru.gov.uk (Detholer: 'Deddfwriaeth', 'Is-ddeddfwriaeth', 'Offerynnau Statudol Lleol', 'Gorchmynion Traffig Parhaol', '2014').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M D Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru